GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Rhaglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (RAAF)
Iechyd Cyhoeddus Cymru, Y Deml Heddwch a Iechyd
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NW

Vaccine Preventable Disease Programme (VPDP)
Public Health Wales, Cathays Park
Cardiff CF10 3NW

Ffôn/Tel: 029 2040 2474 · Ffacs/Fax: 029 2040 2506
Gwefan/Web: www.iechydcyhoedduscymru.org
www.publichealthwales.org

Mehefin 2016

Annwyl Bennaeth,

Rhaglen brechu rhag y ffliw mewn plant

Rwyf yn ysgrifennu atoch i ddiolch am eich help a'ch cefnogaeth gyda'r rhaglen brechu rhag y ffliw mewn plant yn ystod 2015/16 ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynlluniau ar gyfer yr hydref yma. Y llynedd, derbyniodd 63.4% o blant ysgol oedran cymwys frechiad y ffliw yn yr ysgol. Eleni, gyda'ch cefnogaeth chi, rydym yn gobeithio adeiladu ar y llwyddiant hwnnw.

Yn 2016/17, yn ogystal â'r plant yn y **dosbarth derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2**, bydd plant ym **mlwyddyn 3** yn cael cynnig brechiad y ffliw ar ffurf chwistrell trwyn yn yr ysgol hefyd.

Bydd trefniadau'n cael eu gwneud yn lleol ynghylch y sesiwn brechiad y ffliw yn eich ysgol. Efallai bod rhywun wedi cysylltu â chi eisoes ac, os nad oes, mae'n bur debyg y bydd eich bwrdd iechyd lleol yn cysylltu cyn diwedd y tymor ysgol.

Mae disgwyl i gynnig brechiad y ffliw i bob plentyn yn y dosbarth derbyn, blwyddyn 1, blwyddyn 2 a blwyddyn 3 leihau salwch y ffliw mewn plant, ymhlith staff ysgolion ac yn y gymuned, gan roi hwb i ffigurau presenoldeb ysgolion dros fisoedd y gaeaf.

Dylai'r plant ym mlynyddoedd 4, 5 a 6 sydd â chyflwr iechyd sy'n eu rhoi mewn perygl o gymhlethdodau'r ffliw barhau i gael eu brechu gan eu meddyg teulu.

Hefyd, mae plant dwy a thair oed (ar 31ain Awst 2016) yn gymwys am frechiad y ffliw a byddant yn cael cynnig eu brechiad yn y feddygfa.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael ar y dudalen am y rhaglen imiwneiddio rhag y ffliw mewn plant. Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch nyrs ysgol.

Hefyd hoffem fanteisio ar y cyfle yma i ofyn am eich help gyda thynnu sylw rhieni newydd at bwysigrwydd rhoi pob imiwneiddiad sydd ar gael i'w plentyn cyn iddo ddechrau yn yr ysgol. Mae rhyw 1 o bob 8 plentyn pedair oed heb eu himiwneiddio'n llawn ac felly'n agored i ddal a lledaenu afiechydon difrifol fel y pâs a'r frech goch.

Mae llwyddiant rhaglen y ffliw mewn plant yn dibynnu ar gefnogaeth ysgolion. Ymddiheurwn ymlaen llaw am unrhyw darfu a fydd yn digwydd a diolchwn i chi am eich cefnogaeth.

Yn Gywir

Mrs Jane Dyson
Nyrs Imiwneiddio Arbenigol
Jane.Dyson2@wales.nhs.uk

Dr Richard Roberts
Pennaeth y Rhaglen

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Rhaglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (RAAF)
Iechyd Cyhoeddus Cymru, Y Deml Heddwch a Iechyd
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NW

Vaccine Preventable Disease Programme (VPDP)
Public Health Wales, Cathays Park
Cardiff CF10 3NW

Ffôn/Tel: 029 2040 2474 · Ffacs/Fax: 029 2040 2506
Gwefan/Web: www.iechydcyhoedduscymru.org
www.publichealthwales.org

June 2016

Dear Headteacher,

Childhood influenza vaccination programme

I'm writing to thank you for your help and support with the childhood influenza (flu) vaccination programme in 2015/16 and update you regarding the plans for this autumn. Last year 63.4% of eligible school age children received a flu vaccine in school. This year, with your support, we hope to build on that success.

In 2016/17, as well as children in **reception class, year 1 and year 2**, children in **year 3** will also be offered a nasal spray flu vaccine in school.

Arrangements will be made locally regarding the flu vaccination session in your school. You may have been contacted already, but, if not it is likely that you will be contacted by your local health board before the end of the school term.

Offering flu vaccine to all children in reception class, year 1, year 2 and year 3 is expected to reduce flu illness in children, school staff and the community, and to boost school attendance during the winter months.

Children in school years 4, 5 and 6 who have a health condition that puts them at risk from the complications of flu should continue to be vaccinated by their own GP.

Children aged two and three years old (age on 31st August 2016) are also eligible for a flu vaccine and they will be offered their vaccine at their GP surgery.

Additional information is available on the childhood influenza immunisation programme webpage. Should you require further information please contact your school nurse.

We would also like to take this opportunity to ask for your help in highlighting to new parents the importance of being up to date with all immunisations before their child starts school. Around 1 in 8 four year olds are not fully immunised and are vulnerable to catching and spreading serious diseases such as whooping cough and measles.

The success of the childhood flu programme depends on the support of schools. We apologise in advance for any disruption that may occur and thank you for your support.

Yours faithfully

Mrs Jane Dyson
Immunisation Nurse Specialist
Jane.Dyson2@wales.nhs.uk

Dr Richard Roberts
Head of Programme